# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | *Cynllun Ariannol Tymor Canolig* |
| **Aelod Cabinet:** | *Cyng. Paul Rowlinson, Aelod Cabinet Cyllid a'r Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor* |
| **Swyddog perthnasol:** | *Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid*<br>*Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr* |
| | |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | *14 Mai 2024* |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

1.1 Cymeradwyo Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2025/26 – 2027/28.

1.2 Comisiynu'r Prif Weithredwr i sefydlu ac arwain ar ystod o fesurau a phecynnau gwaith, fel amlinellir yn rhan 4.7 o'r adroddiad hwn, i ragbaratoi ar gyfer cyfarch y bwlch sylweddol yn ein cyllideb dros y tair mlynedd nesaf.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

2.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn gosod allan y rhagolygon ariannol ar gyfer y cyfnod o 3 blynedd sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2025.

2.2 Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf sydd ar gael am y newid yn yr incwm fydd y Cyngor yn ei dderbyn dros y cyfnod (drwy Grant y Llywodraeth a Treth Cyngor), a'r gofynion gwariant ychwanegol dros yr un cyfnod.

2.3 Bydd mabwysiadu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig gan y Cabinet yn caniatáu i'r Cyngor ystyried y gwaith sydd ei angen er mwyn creu cynlluniau manwl i fynd i'r afael â'r bwlch ariannol sy'n cael ei ragweld ar gyfer 2025/26 – 2027/28, ac i lywio'r gwaith sydd ei angen.

2.4 Ni ddisgwylir i'r Cyngor gael gwybod beth fydd Grant y Llywodraeth ar gyfer 2025/26 tan o leiaf fis Rhagfyr 2024, ond gyda'r rhagolygon na fydd y setliad ariannol yn cynyddu, mae risg sylweddol o ansefydlogrwydd ariannol difrifol o beidio cymryd camau cynnar a phendant i ystyried y sefyllfa ac chymryd camau adfer.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

### Cefndir/ Cyflwyniad

3.1 Mae’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi gwytnwch y Cyngor, a chynaliadwyedd ariannol hirdymor, trwy ddarparu rhagolwg strategol y tu hwnt i ystyriaethau cyllideb y flwyddyn gyfredol. Mae'n offeryn gwerthfawr ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus a chynllunio am y dyfodol.

3.2 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig drafft ar gyfer y 3 blynedd yn cychwyn ar 1 Ebrill 2025 wedi ei gynnwys yn yr atodiad. Mae’r CATC yn ddogfen fyw –mae'r gyllideb yn cael ei hadnewyddu'n flynyddol gyda chynllun incwm a gwariant fanwl iawn, ond mae’r cynllun hwn yn asesiad lefel uchel o anghenion ariannol y Cyngor am dair blynedd fydd yn cael ei ddiweddaru’n gyson wrth i wybodaeth newydd ddod i law. Bydd yn cael ei ddiweddaru ar gyfer newidiadau mewn tybiaethau ariannu cenedlaethol a lleol, amcanestyniadau incwm, pwysau gwario ac unrhyw newidiadau mewn cynlluniau arbed.

3.3 Bydd unrhyw adolygiad neu adnewyddiad o Gynllun y Cyngor yn y blynyddoedd nesaf hefyd yn cael ei adlewyrchu, gan ymgorffori unrhyw newidiadau ariannol sy'n deillio o hynny.

3.4 Disgwylir bydd diweddariadau i’r Cynllun yn cael eu cyflwyno i’r Cabinet yn rheolaidd wrth i ragolygon ariannol newid.

### Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

3.5 Pwrpas y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yw dwyn ynghyd yr holl ffactorau hysbys sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor a'i gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig. Mae’r CATC yn rhoi darlun cyfannol o'r dirwedd ariannol y tu hwnt i'r flwyddyn gyllidebol bresennol.

3.6 Mae'r CATC yn cydbwyso goblygiadau ariannol amcanion a pholisïau yn erbyn cyfyngiadau adnoddau. Mae'n helpu'r Cyngor, y Cabinet, ac unrhyw un sy'n gwneud penderfyniadau yn unol â’r Cynllun Dirprwyo, i ddeall y cyfaddawdau rhwng nodau ariannol a'r adnoddau sydd ar gael.

3.7 Mae’r tabl ar y dudalen nesaf yn dangos rhagolygon bydd y Cyngor, heb ymyrraeth ganddo yn wynebu’r bylchau ariannol canlynol yn y gyllideb yn ystod y blynyddoedd dan sylw:

- 2025/26: bwlch o £8 miliwn
- 2026/27 bwlch o £4.8 miliwn
- 2027/28: bwlch o £4.6 miliwn

3.8 Hynny yw, rhagwelir bwlch cronnus o £17.4 miliwn dros dair blynedd.

| | Amcan<br>Ebrill 2024 | | |
|---|---|---|---|
| | **2025/26** | **2026/27** | **2027/28** |
| | **£m** | **£m** | **£m** |
| **Pwysau** | | | |
| Chwyddiant Tâl | 7.4 | 5.1 | 5.2 |
| Chwyddiant Prisiau | 3.6 | 3.0 | 2.8 |
| Ardollau | 0.5 | 0.3 | 0.3 |
| Eraill | -1.0 | | |
| | | | |
| Pwysau / Galw | 3.0 | 3.0 | 3.0 |
| | | | |
| **Cyfanswm Pwysau** | **13.5** | **11.4** | **11.3** |
| | | | |
| **Newidiadau Ariannu** | | | |
| Treth Cyngor | 6.0 | 6.3 | 6.7 |
| Setliad Grant | 0 | 0 | 0 |
| | | | |
| **Cyfanswm y newidiadau Ariannu** | **6.0** | **6.3** | **6.7** |
| | | | |
| Arbedion i'w gwireddu | 0.5 | 0.3 | 0 |
| | | | |
| **Cyfanswm Ariannu ac Arbedion** | **6.5** | **6.6** | **6.7** |
| | | | |
| **Bwlch** | **7.0** | **4.8** | **4.6** |
| | | | |
| Pontio Cyllideb 2024/25 | 1.0 | 0 | 0 |
| | | | |
| **Bwlch Terfynol** | **8** | **4.8** | **4.6** |

3.9 Mae manylion yr wybodaeth sydd yn y tabl, a chyfiawnhad fanwl dros y ffigyrau a ddefnyddir, i’w cael yn y CATC.

3.10 Dylid nodi nad y sefyllfa orau posib na’r un waethaf sy’n cael ei ddangos yn y tabl uchod, ond y senario mwyaf tebygol ar sail yr wybodaeth sydd ar gael i ni.

3.11 Mae’n anorfod bydd y cyfyngiadau ariannol caeth bydd y Cyngor yn eu hwynebu dros y blynyddoedd nesaf yn effeithio ar ei allu i wireddu ei amcanion, a darparu’r holl wasanaethau rydym yn eu dymuno ar ran pobl Gwynedd. Yn hynny o beth, cam cychwynnol fyddai mabwysiadu’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig sydd wedi ei gynnwys yn yr atodiad. Mae’r Cynllun yn adnabod y bwlch ariannol, ac mae rhan 4 isod yn argymell camau gellid eu hystyried er mwyn mynd ati i isod cyllidebau cytbwys yn 2025/26, 2026/27 a 2027/28.

3.12 Pan fydd modd rhoi gwerth ariannol i’r camau gweithredu, bydd y CATC yn cael ei ddiweddaru fel bod modd cyflawni nod y CATC yma i gynnig golwg glir a chryno ar gynaliadwyedd yn y dyfodol fel bod modd llywio penderfyniadau i fynd i'r afael â’r bylchau mewn cyllid tymor hir, gan sicrhau iechyd ariannol y Cyngor dros amser.

**4. Ymateb i’r sefyllfa sy’n ein wynebu**

4.1 Gan ein bod bellach yn gwybod y byddwn yn wynebu diffyg ariannol oddeutu £17.4M dros y tair blynedd nesaf, mae’n hanfodol i roi trefniadau ar waith er mwyn ymateb i hynny.

4.2 Dros y 10 mlynedd diwethaf, a mwy, rydym wedi bod yn gwasgu ar gyllidebau a chanfod arbedion drwy wahodd cynigion gan Adrannau, a blaenoriaethu’r cynlluniau oedd yn cael yr effaith lleiaf ar drigolion Gwynedd.

4.3 Roedd hynny yn arwain at dorri hwnt ac yma ond i raddau helaeth yn parhau i geisio cyflawni cymaint ag y gallwn, i bawb.

4.4 Erbyn heddiw, canlyniad hyn yw fod gwasanaethau a staff dan bwysau cynyddol, gyda diffyg cyllideb yn arwain at orwario anorfod mewn nifer o feysydd. Diffyg gallu darparu cyllideb rhesymol sy’n arwain at y gorwario hwn.

4.5 Mae’r gyfundrefn hon wedi bod yn effeithiol hyd yma, ond rydym bellach wedi cyrraedd pwynt lle na allwn wasgu mwy ohoni, ac yn sicr, nid yw’r gyfundrefn yn ein galluogi i gyrraedd y lefel o doriadau sy’n ein wynebu o hyn allan.

4.6 Down i’r casgliad felly, fod y gyfundrefn arbedion a thoriadau presennol wedi cyrraedd diwedd ei hoes a bod angen rhoi trefniadau amgen mewn lle.

4.7 Yn wyneb y ffaith nad yw’r gyfundrefn bresennol o adnabod arbedion a thoriadau yn addas i bwrpas er mwyn cyrraedd y lefel o doriadau sydd dan sylw dros y tair blynedd nesaf, argymhellir i’r Cabinet gomisiynu’r Prif Weithredwr i:

a. Gyflwyno trefniadau ychwanegol i reoli gorwariant yn 2024/25, gan na fydd arian wrth gefn i allu ymdopi gyda sefyllfa o’r un math a welwyd y llynedd. Bwriedir sefydlu cyfundrefn ‘rhybudd cynnar’ ar gyfer rhai meysydd sydd dan bwysau, a pharatoi er mwyn rhewi gwariant yng nghanol y flwyddyn os daw rhybuddion cynnar am orwario ar y cyllidebau hyn.

b. Llunio cyfundrefn newydd sy’n adnabod y gwasanaethau mwyaf hanfodol i bobl Gwynedd er mwyn adeiladu’r hyn sydd o fewn ein gallu i’w ddarparu

c. Gynnal cyfres o adolygiadau eraill:

- Cymharu gwariant gyda'n cymheiriaid
- Adolygiad CIPFA
- Ail edrych ar benawdau corfforaethol sydd yn y gyllideb
- Adolygiad corfforaethol ffioedd ac incwm
- Adolygiad o gyllidebau adrannau
- Adolygiad o haenau rheolaethol a strwythur y Cyngor
- Adnabod opsiynau o fewn y Sector Ysgolion
- Adolygiad gwariant gan arbenigwyr CLlLC
- Cymharu ein darpariaeth (gwasanaethau cymdeithasol) gyda chynghorau eraill
- Adolygiad o drefniadau comisiynu a gofal
- Trosglwyddo i'r 3ydd Sector / Cynghorau cymuned
- Adolygiad Strategol Cludiant Ysgolion
- Cyfleon cydweithio gyda awdurdodau eraill
- Trawsnewid gwasanaethau / adolygiadau Ffordd Gwynedd / Trawsnewid digidol
- Arbedion o gyfundrefn newydd rheoli absenoldebau

4.8 Gan fod yr adolygiadau hyn yn debygol o gymryd rhai misoedd i'w cwblhau, awgrymir cychwyn y gwaith ar fyrder er mwyn dod i gasgliad mewn da bryd cyn gosod cyllideb 2025/26 gan gydnabod efallai na fydd modd cyflawni'r cyfan cyn gosod cyllideb 2025/26

4.9 Rhaid bod yn effro i'r ffaith nad oes gwarant y bydd unrhyw un o'r uchod yn arwain at gyfleon i leihau ein gwariant. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ein bod yn ymchwilio ac yn troi pob carreg posib cyn cychwyn trafodaethau ar lefel y Dreth Cyngor ar gyfer 2025/26.

4.10 Bydd pob un o'r camau hyn yn ddibynnol ar ystyriaeth fanwl o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac os yw'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig am wireddu ei bwrpas bydd rhaid i'r camau gweithredu sy'n deillio ohono fod yn destun asesiad pellach ar sut maent yn cyfrannu i'r "pump ffordd o weithio".

4.11 Yn ogystal â hynny, bydd rhaid i benderfyniadau pellach sydd angen eu cymryd wrth weithredu'r opsiynau sydd ar gael fod yn destun Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ardrawiad Economaidd-Gymdeithasol fel bo'r angen.

**Camau nesaf**

4.12 Os bydd y CATC yn cael ei fabwysiadu, a'r Cabinet yn comisiynu gwaith i adnabod ffyrdd i gau'r bwlch ariannol, bydd y gwaith yn dechrau ar unwaith.

## 5. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 5.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Arweinydd, yr Aelod Cabinet a'r Prif Weithredwr i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

### 5.2 Swyddog Monitro

Mae'r Cynllun yma yn cynnig ymateb i'r rhagolygon o heriau ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor. Mae ymateb i sefyllfa o'r fath yn golygu gwaith rhag blaen er sicrhau fod y Cyngor mewn lle i wireddu cynlluniau arbed a thorri yn amserol. Rwy'n croesawu comisiwn i'r Prif Weithredwr i gychwyn ar y gwaith yma. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i ystyried yr oblygiadau cyfreithiol posib ac ymateb ynghyd ac asesu ardrawiadau er canfod datrysiadau. Bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol yn cefnogi y gwaith yma.

**Atodiadau:**

*Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 – 2027/28*